Nursing & Midwifery Council

# Diweddariad canol-blwyddyn cofrestr Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i Gymru

1 Ebrill – 30 Medi 2024



# Croeso i'n hadroddiad canol-blwyddyn am gofrestr y CNB a'r hyn y mae'n amlygu am y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru.

## Cyd-destun

Mae cyfanswm y gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ar gofrestr y CNB yng Nghymru yn parhau i gynyddu, a bellach yn **41,126**. Mae hynny'n **632** (**1.6%**) **yn fwy** o weithwyr proffesiynol cofrestredig na chwe mis yn ôl, a **4,627** (**12.7%**) **fwy** na phum mlynedd yn ôl.

Dros y blynyddoedd, mae'r twf hwn wedi cael ei gefnogi gan gynnydd cyson yn nifer y bobl wedi'u haddysgu yn y Deyrnas Gyfunol sy'n ymuno â'r gofrestr, a chynnydd parhaus mewn recriwtio rhyngwladol.

Mae ein data diweddaraf yn dangos bod **87** yn llai o bobl (**-7.4%**) wedi ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf yng Nghymru o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Achoswyd hyn gan y gostyngiad yn y nifer y nyrsys a ymunodd; **130** llai o bobl (**-11.5%**) o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, er bod y niferoedd sy'n ymuno eleni yn is na'r flwyddyn flaenorol, mae nifer y bobl sy'n ymuno yn parhau i fod yn uwch nag unrhyw gyfnod chwe mis arall cyn 2023.

Ar ôl cwymp sylweddol yn y bydwragedd sy'n ymuno â'r gofrestr yng Nghymru yn ystod y chwe mis cyn mis Medi 2023 (pan dim ond **46** a ymunodd), mae'n galonogol gweld bod hyn wedi codi'n ôl i fod yn fwy tebyg i'r blynyddoedd blaenorol (roedd **84** wedi ymuno yn ystod y chwe mis diwethaf).

**41,126**
o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr yng Nghymru (↑)

**Yn ystod y chwe mis diwethaf**

Cynnydd o
**632** (↑ +1.6%)

- **Nyrsys** 38,641 (↑ +1.5%)
- **Bydwragedd** 2,088 (↑ +3.1%)
- **Cofrestryddion deuol** 357 (↓ -1.1%)
- **Cymdeithion Nyrsio**[1] 40 (↑ +21.2%)

**Yn ystod y chwe mis diwethaf, o'i gymharu â Ebrill-Medi 2023**

- **1,092** wedi ymuno â'r gofrestr (↓ -7.4%)
- **736** wedi gadael y gofrestr (↑ +1.7%)

1 Mae 40 o gymdeithion nyrsio yn byw yng Nghymru ond ar hyn o bryd, dim ond yn Lloegr mae'r rôl yn weithredol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cymdeithion nyrsio yng Nghymru; yn amodol ar newidiadau yn ein deddfwriaeth.

## Golwg ar recriwtio rhyngwladol yng Nghymru

Ni all ein data sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol a addysgir yn rhyngwladol fod yn ddiffiniol yn ein hadroddiadau pedair gwlad, megis yr un yma, oherwydd efallai nad oedd gan weithwyr gyfeiriad cofrestredig yn y Deyrnas Gyfunol wrth gofrestru. Mae hyn yn golygu gall fod yna weithwyr proffesiynol rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys eto yn y data hwn oherwydd nad ydynt eto wedi rhoi eu cyfeiriad i ni. Rydym yn annog pawb o bob ban o'r byd sy'n ymuno'n gyda'n cofrestr i ddiweddaru eu manylion trwy **CNB Ar-lein** cyn gynted â phosibl.

Serch hynny, mae ein data rhyngwladol sy'n benodol i Gymru yn ddangosydd da o dueddiadau dros amser. Ar y cyfan, rydym yn gweld twf parhaus yn nifer y gweithwyr proffesiynol a addysgir yn rhyngwladol sy'n ymuno â'r gofrestr yng Nghymru.

India sydd â'r nifer fwyaf yn ymuno, ac felly'n parhau i fod y ffynhonnell fwyaf o recriwtio rhyngwladol i Gymru.




### Mis Medi 2024: ble darparwyd addysg tramor i'r nifer fwyaf, o'i gymharu â'r llynedd

1. **India** 1,675 ↑ +31.5%
2. **Y Philipinas** 1,394 ↑ +5.0%
3. **Rwmania** 235 ↑ +0.9%

### Mis Medi 2024

**45 oed, 3 mis**
oedd oedran cyfartalog gweithwyr proffesiynol yng Nghymru

### Rhaniad rhywedd y gofrestr




### Cyfeiriadedd rhywiol, newid yn ystod y chwe mis diwethaf

↑ +15.7% **1,609** lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu arall

↑ +1.2% **37,232** Heterorywiol

## Cofrestr aml-ethnig

Fel a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol, ceir newid bach ym mhroffil ethnig y gofrestr yng Nghymru, er bod hyn yn arafach nag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Gyfunol.

Yng Nghymru, mae cyfran yr holl weithwyr proffesiynol cofrestredig o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig[2] wedi cynyddu i **13%** ar 30 Medi 2024. Mae hyn **0.8 pwynt canran yn uwch** na chwe mis yn ôl (**12.2%**), a **2.9 pwynt canran** dros bum mlynedd yn ôl (**9.3%**).

## Niferoedd yn parhau'n gyson

Yng Nghymru, mae'r darlun o ymadawyr wedi aros yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol - gadawodd **736** o bobl y gofrestr yn ystod y chwe mis diwethaf. Mae hyn yn **12** yn fwy o bobl nag yn yr un cyfnod y llynedd (**724**). Wrth edrych ar ymadawyr fel cyfran o'r gofrestr, gallwn weld na fu unrhyw newid o ffigur y llynedd, sef 1.8%.

Mae'r darlun cyffredinol ledled Cymru o'r ymadawyr a addysgwyd yn y Deyrnas Gyfunol wedi aros yn gyson; tua 700 o bobl dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn debyg i'r darlun ledled y DG, gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol a oedd yn gadael y gofrestr yn ystod y chwe mis diwethaf (**56**), sydd **19** yn fwy na'r adeg hon y llynedd, a **29** yn fwy na phum mlynedd yn ôl.



**13.0%**
o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifol ethnig. Yn 2019, roedd **9.3%** o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

### Crefyddau penodedig fwyaf cyffredin, newid mewn chwe mis

- -0.2% **Cristnogaeth** 19,426
- +3.3% **Dim crefydd** 18,534
- +15.6% **Hindŵaeth** 312

### Hyd yr amser ers cofrestru cychwynnol, newid yn ystod y chwe mis diwethaf[3]

- +11.6% **5 mlynedd neu lai** 9,167
- +5.4% **Rhwng 5 a 10 mlynedd** 6,339
- -0.2% **10 i 30 mlynedd** 17,126
- +6.7% **30 mlynedd neu fwy** 8,490

2 Mae'r CNB yn cydnabod bod iaith y cyd-destun hwn yn newid yn gyson a bod y bobl sydd wedi'u cynnwys o fewn termau mor eang yn cwmpasu grwpiau ethnig amrywiol. Rydym yn adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn rheolaidd.

3 Nid yw hyd yr amser ers cofrestru am y tro cyntaf o reidrwydd yn golygu cofrestru di-dor neu barhaus. Mae nifer yn gadael y gofrestr am amrywiaeth o resymau, a hynny un neu fwy o gyfnodau yn ystod eu gyrfaoedd.

## Rhannu mewnwelediadau i gefnogi'r sector

Gobeithiwn y bydd y trosolwg hwn, ochr yn ochr â'n **tablau data** cynhwysfawr, yn cefnogi cynllunio'r gweithlu ac ymchwil yng Nghymru, gan sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol o wasanaethau y mae pobl a chymunedau ledled y wlad yn dibynnu arnynt am eu hiechyd a'u lles.

Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, **cysylltwch â ni**.



**Kuljit Dhillon**
Cyfarwyddwr dros dro
Strategaeth a Mewnwelediad





Yn ystod y chwe mis diwethaf

+2.0% **Nyrsys oedolion** 30,085

+3.4% **Nyrsys plant** 3,079

+2.3% **Nyrsys iechyd meddwl** 5,674

+1.4% **Nyrsys anableddau dysgu** 1,007

-1.2% **Nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol** 1,825

**Ni ddylem anghofio bod yna weithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data; sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud ar gyfer y bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.**



# Yr hyn rydym yn ei wneud

## Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol 841,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig wrth wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i ddiogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, gan wella ein cefnogaeth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, a gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg uchel a phroffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y Deyrnas Gyfunol a chymdeithion nyrsio Lloegr, ac yn sicrhau ansawdd eu haddysg. Rydym yn cadw uniondeb y gofrestr o'r rheiny sy'n gymwys i ymarfer. Yn ogystal, ymchwiliwn i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar nifer fechan o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

I reoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a chyhoeddus. Rydym yn creu canllawiau ac adnoddau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod yn ymgysylltu ac yn cael eu grymuso i lunio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, ein mewnwelediad a'n gwybodaeth er mwyn **dylanwadu** ar y broses o wneud penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk @nmcnews

Nursing & Midwifery Council

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).